# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Llys y Tywysog**

**Llys-y-Tywysog**
**Clos Pengelli, Pengelli**
**Abertawe**
**SA4 4JW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

11/10/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Cartref Gofal Llys y Tywysog

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Barchester Healthcare Homes Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 54 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | [10 Mawrth 2024] |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Mae Llys y Tywysog yn wasanaeth gofal preswyl croesawgar a chartrefol iawn. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gofal a gânt ac roeddent yn ei ganmol. Mae cynlluniau personol cynhwysfawr a chyfredol ar waith sy'n adlewyrchu'r bobl yn eithriadol o dda, yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn disgrifio'r ffordd yr hoffent gael eu cefnogi'n llawn. Dywedodd y bobl wrthym fod y gwasanaeth bob amser yn ymgynghori â nhw a'u heiriolwyr am benderfyniadau am eu gofal. Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff medrus sydd wedi'u hyfforddi'n briodol i ddiwallu anghenion y bobl. Caiff y staff eu cefnogi drwy drafodaethau ffurfiol ac anffurfiol a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n llawn a'u bod yn hyderus yn eu rolau.

Mae'r gwasanaeth yn gartrefol iawn ac yn cynnig llawer o ardaloedd cymunedol dan do ynghyd ag ardaloedd awyr agored diogel lle gall y bobl ddewis treulio eu hamser. Mae gweithdrefnau cynnal a chadw cadarn ar waith ac mae'r darparwr yn rhagweithiol iawn wrth sicrhau bod yr amgylchedd yn parhau i fod yn ddiogel a'i fod yn diwallu anghenion y bobl.

Mae presenoldeb yr Unigolyn Cyfrifol a'r tîm rheoli yn amlwg iawn yn y gwasanaeth. Maent yn gweithio'n helaeth gyda'r bobl, eu teuluoedd, a'r staff i gasglu adborth am y gwasanaeth sy'n llywio unrhyw welliannau gofynnol. Mae gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith i oruchwylio ansawdd y gofal er mwyn gwneud yn siŵr bod gwasanaeth o ansawdd uchel yn cael ei ddarparu.

## Llesiant

Mae gan y bobl lais a chânt eu trin â pharch ac urddas. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael eu cefnogi i wneud penderfyniadau am eu bywyd bob dydd a'u bod yn cael eu cynnwys yn llawn yn eu gofal. Gofynnir yn rheolaidd iddynt gyflwyno cardiau adborth dienw am eu gofal, sy'n cael eu cadw mewn ffeil adborth ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y tîm rheoli. Mae system 'cenhadon' ar waith, lle caiff preswylwyr eu hethol gan y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth i weithredu fel llefarwyr ar eu rhan. Gall y bobl drafod unrhyw bryderon a allai fod ganddynt am y gwasanaeth a chânt wahoddiad i fynychu cyfarfodydd misol. Dywedodd y bobl wrthym yn gyson eu bod yn meddwl bod y gwasanaeth yn neilltuol, gan ddweud, *"Staff are lovely, I can't fault them, they always treat us with respect"* ac "*I can't believe I've landed in such a marvellous place".*

Caiff iechyd corfforol ac iechyd meddwl y bobl, a'u llesiant emosiynol eu hyrwyddo'n gyson. Lle bo angen, gofynnir am gymorth gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill megis meddygon teulu, nyrsys ardal a ffisiotherapyddion. Gwelsom gofnodion manwl, llawn gwybodaeth a oedd yn dangos bod y bobl yn cael eu cefnogi i fynd i apwyntiadau gofal iechyd. Dywedodd gweithwyr proffesiynol a oedd yn ymweld wrthym fod ganddynt gydberthnasau proffesiynol rhagorol â thîm rheoli'r gwasanaeth, bod trefniadau cyfathrebu o safon uchel ar waith rhyngddynt a'u bod o'r farn bod y bobl yn cael eu cynnwys yn llawn yn y penderfyniadau am eu gofal. Caiff ymwelwyr eu hannog i ddod i'r cartref a chawsom wybod nad oes amseroedd ymweld penodedig.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd cartrefol a diogel sydd mewn cyflwr da ac sy'n hybu eu llesiant yn gyson. Mae sawl ardal gymunedol yn y gwasanaeth, lle gall y bobl dreulio amser. Gwelsom fod yr ardaloedd hyn yn cael eu defnyddio at ddibenion gwahanol. Gall y bobl ddewis cymryd rhan mewn gweithgareddau a chymdeithasu ag eraill, neu gallant dreulio amser yn ymlacio mewn ardaloedd cymunedol tawelach. Mae salon gwallt a harddwch yn rhan o'r gwasanaeth a dywedodd y bobl eu bod yn mwynhau ei ddefnyddio'n fawr. Mae ardal lesiant hefyd y gall y bobl ei defnyddio fel y mynnant. Mae ardal awyr agored ddiogel a hygyrch ar gael i'r bobl ei defnyddio pa bryd bynnag y byddant am ei defnyddio. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u haddurno a'u personoli yn unol â chwaeth yr unigolyn.

Mae'r bobl yn cael eu diogelu'n gyson rhag niwed ac esgeulustod. Mae systemau rhagorol ar waith i gadw'r bobl yn ddiogel, gan gynnwys drysau wedi'u gweithredu gan fysellbad, ardaloedd awyr agored diogel, gweithdrefnau i ymwelwyr lofnodi wrth gyrraedd/gadael, a gweithdrefnau rheoli heintiau cadarn er mwyn lleihau unrhyw risgiau croesheintio. Mae'r staff yn cael hyfforddiant diogelu cynhwysfawr ac maent yn hyderus wrth roi gwybod am unrhyw bryderon sydd ganddynt mewn perthynas â hyn. Mae gan y darparwr bolisïau a gweithdrefnau clir ar waith sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae gwiriadau cadarn ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fod yn gartrefol ac yn groesawgar, ond yn ddiogel ac yn lân hefyd.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi yn y ffordd a ffefrir ganddynt ac mae cynlluniau personol ac asesiadau risg ar waith sy'n adlewyrchu eu hanghenion yn llawn. Caiff asesiad cychwynnol trylwyr iawn ei gwblhau gyda'r bobl a'u teuluoedd cyn i'r gofal gael ei ddarparu. Mae hyn yn nodi anghenion a dyheadau'r bobl a chaiff ei ddefnyddio i ddatblygu'r cynllun personol. Mae'r cynlluniau personol yn adlewyrchu'r unigolyn, yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae asesiadau risg manwl iawn ar gael ac yn cyfateb i'r cynlluniau hyn. Dywedodd y bobl a'u teuluoedd neu eu cynrychiolwyr wrthym eu bod yn cael eu cynnwys yn llawn yn y broses o adolygu eu cynlluniau a bod y gwasanaeth yn ymgynghori'n rheolaidd â nhw am eu gofal a'u cymorth. Caiff llyfrynnau "*Getting to know me*" eu cadw yn ystafelloedd gwely'r bobl ac maent yn darparu disgrifiad manwl o'r unigolyn, gan gynnwys ei hanes cymdeithasol, lluniau o'r pethau sy'n bwysig iddo a gwybodaeth gyfredol am ei hoff bethau a'i gas bethau.

Gall y bobl wneud amrywiaeth eang o bethau sy'n bwysig iddynt, ac mae'r gwasanaeth yn chwilio am gyfleoedd newydd a phrofiadau cadarnhaol sy'n cyfoethogi bywydau'r bobl. Gwelsom y bobl yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau y maent yn eu mwynhau, gan gynnwys sesiwn harddwch, bingo, cwisiau a boreau sgwrsio ('*chit and chatter*'). Dywedodd y bobl wrthym, *"there is always something going on that we can get involved in".* Mae'r gwasanaeth yn cynnal cyfarfodydd misol sy'n cynnwys cyfle i'r bobl roi adborth ar y gweithgareddau presennol a gwneud argymhellion ar gyfer gweithgareddau eraill. Caiff y bobl eu hannog i wneud hynny. Mae cofnodion y cyfarfodydd yn dangos amrywiaeth o gynigion a gafodd eu hychwanegu wedyn at y cynllun gweithgareddau. Gofynnir i'r bobl yn ystod y cyfarfodydd misol i wneud dymuniad yr hoffent ei wireddu. Yna caiff eu dymuniad ei osod ar 'lein ddillad dymuniadau' a'i arddangos yn yr ardal gymunedol. Bob mis, mae'r gwasanaeth yn anelu at wireddu un dymuniad ac yn annog y bobl eraill i gymryd rhan. Hyd yma, mae'r dymuniadau a gyflawnwyd yn cynnwys nofio, ymweld â Folly Farm ac ymweld â siop beiciau modur gyfagos. Soniodd y bobl yn llawn hoffter am eu profiadau wrth wireddu eu dymuniadau a gwelsom luniau ac erthyglau o'r cyflawniadau hyn yng nghylchlythyr y gwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo'r Gymraeg mewn ffordd ragweithiol. Mae'r gwasanaeth yn cyflogi siaradwyr Cymraeg ac mae gwersi Cymraeg yn cael eu cynnig bob wythnos i'r rhai hynny sy'n awyddus i ddysgu. Dywedodd y bobl wrthym, *"I've recently started the weekly Welsh lessons and I'm really happy about it".* Ceir "cornel Gymraeg" benodol yn un o'r ardaloedd cymunedol lle gall y bobl gael gafael ar ddeunyddiau Cymraeg ac ymarfer eu sgiliau Cymraeg.

Mae systemau diogel ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Caiff meddyginiaeth ei storio'n briodol mewn ardaloedd dynodedig dan glo. Mae gweithdrefn a pholisi priodol ar waith ar gyfer meddyginiaethau a chânt eu hadolygu bob blwyddyn. Gwelsom gofnodion dyddiol ar gyfer tymheredd yr ystafell feddyginiaeth a'r oergelloedd, ac roedd y tymereddau

hyn o fewn yr ystod gywir. Mae pob aelod o'r staff sy'n rhoi meddyginiaethau wedi cael hyfforddiant priodol i wneud hynny.

## Yr Amgylchedd

Caiff gofal a chymorth eu darparu mewn lleoliad ac amgylchedd sy'n annog ac yn galluogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol mewn ffordd gyson. Gwelsom fod pob rhan o'r gwasanaeth yn lân iawn, wedi'i haddurno'n hyfryd ac yn daclus. Caiff yr amgylchedd ei gynnal a'i gadw i safon uchel iawn gan dîm cynnal a chadw ymroddedig. Mae pob ystafell wely wedi'i phersonoli'n unol â chwaeth yr unigolyn ac mae toiled en-suite ym mhob ystafell. Mae amrywiaeth eang o ardaloedd cymunedol lle gall y bobl ymlacio a chymdeithasu os byddant am wneud hynny. Mae ystafell lesiant ar gael fel ardal ddynodedig y gall y bobl a'r staff ei defnyddio pan fo angen. Mae cyflenwad parhaus o ddiodydd poeth ac oer a dewis o gacennau ffres ar gael i'r bobl yn yr ardaloedd cymunedol. Mae ardal fwyta fawr a dymunol sy'n cynnig profiad bwyta pleserus iawn. Caiff bwydlen ddyddiol ei harddangos wrth y fynedfa a chaiff bwydlen ei gosod ar bob bwrdd. Mae'r gegin ar wahân i'r ardaloedd cymunedol a gwelsom fesurau rheoli heintiau sefydledig.

Mae yna ardal awyr agored fawr, ddiogel a hygyrch sydd mewn cyflwr da y gall y bobl ei defnyddio pryd bynnag y byddant am wneud hynny. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn defnyddio'r ardal hon yn aml, a gwelsom fod digon o ardaloedd eistedd cadarn ynghyd â gwelyau blodau uchel. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau garddio os byddant am wneud hynny ac y gallant ymuno â'r clwb garddio. Mae amrywiaeth o nodweddion ar waith i gefnogi'r bobl sy'n byw gyda dementia. Mae addasiadau a chyfarpar ar gael lle bo angen a gwelsom gofnodion gwasanaethu ar eu cyfer.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac mae prosesau cadarn ar waith i sicrhau bod gwiriadau iechyd a diogelwch yn cael eu cwblhau a'u dogfennu. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio system fynediad â bysellbad a llyfr ymwelwyr. Diben hyn yw sicrhau bod y bobl yn cael eu cadw'n ddiogel a chydymffurfio â rheoliadau tân. Gwelsom fod gwiriadau diogelwch tân gorfodol yn cael eu cwblhau'n rheolaidd ac roedd ymarfer tân wedi'i gynnal yn ddiweddar. Roedd y tystysgrifau gofynnol ar gael ac yn gyfredol gan gynnwys ar gyfer nwy, synwyryddion tân, diffoddwyr tân, y system drydan a chyfarpar trydanol. Caiff gwiriadau tymheredd dŵr eu cynnal a'u cofnodi'n rheolaidd, a chaiff allfeydd na chânt eu defnyddio'n aml eu fflysio bob wythnos. Mae'r gwasanaeth yn cwblhau gwiriadau chwarterol o samplau dŵr ar gyfer clefyd y llengfilwyr. Mae cynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng (PEEPS) ar waith ar gyfer y bobl. Caiff cyfleusterau golchi dillad eu cadw mewn ardal ar wahân ac i ffwrdd o'r ardaloedd paratoi bwyd. Mae gan y cartref sgôr hylendid bwyd o bump (da iawn) ar hyn o bryd. Gwelsom fod sylweddau sy'n beryglus i iechyd yn

cael eu storio'n briodol. Cânt eu cadw mewn ardal ddynodedig dan glo ac mae taflenni data diogelwch perthnasol ar gael. Mae'r staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr drefniadau llywodraethu cyson a chryf iawn ar waith er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn siarad â'r bobl, eu teuluoedd a'r staff i gasglu adborth am y gwasanaeth. Mae'n rhoi pwyslais mawr ar ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid sy'n llywio ei adroddiadau ar yr ymweliadau rheoliadol a'i adolygiadau o ansawdd y gofal. Cânt eu cwblhau i safon uchel ac maent yn rhoi darlun da o berfformiad y gwasanaeth. Caiff meysydd i'w gwella eu nodi a gweithredir arnynt yn brydlon. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cael ei gefnogi gan reolwr profiadol ac ymroddedig sy'n ymrwymedig i lywio gwelliannau yn y gwasanaeth. Caiff hyn ei gyflawni drwy drefniadau archwilio rheolaidd a thrwy ymdrin ag unrhyw ddiffygion yn ddi-oed, ynghyd â gofyn am adborth gan y bobl, eu teuluoedd a'r staff, a gweithredu ar hynny.

Mae prosesau goruchwylio effeithiol iawn ar waith mewn perthynas â threfniadau ariannol y gwasanaeth a'i drefniadau buddsoddi. Mae'r amgylchedd mewn cyflwr da iawn, a gwelsom fod gwaith adnewyddu parhaus yn cael ei wneud yn y gwasanaeth. Gwelsom fod yr ystafell ymolchi ar y llawr gwaelod wrthi'n cael ei hadnewyddu'n sylweddol ac esboniodd y rheolwr y cynllun ar gyfer yr ardal hon. Dywedodd y rheolwr wrthym fod y darparwr yn buddsoddi'n barhaus er mwyn sicrhau gwasanaeth o safon uchel iawn. Mae'r lefelau staffio yn ddigonol a chânt eu hadolygu pan fydd anghenion y bobl yn newid. Dywedodd y bobl wrthym fod digon o amser gan y staff i ofalu amdanynt yn y ffordd a ffefrir ganddynt. Dywedodd y staff wrthym eu bod ar y cyfan yn teimlo bod ganddynt ddigon o amser i'w dreulio gyda'r bobl ac nad ydynt yn teimlo eu bod yn rhuthro.

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth gan dîm o staff profiadol a chymwys iawn sy'n meddu ar wybodaeth a sgiliau priodol. Mae'r trefniadau recriwtio yn gadarn ac mae'r dogfennau angenrheidiol ar gael. Mae ffeiliau'r staff yn cynnwys tystiolaeth o ddulliau recriwtio a gwiriadau cefndir priodol. Mae gwiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar waith. Mae pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant sefydlu cynhwysfawr pan fydd yn dechrau yn ei rôl, a hyfforddiant parhaus wedi hynny. Mae cofnodion yn dangos bod y staff yn cael amrywiaeth o hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant sy'n benodol i'r gwasanaeth drwy sesiynau ar-lein a sesiynau wyneb yn wyneb, sy'n cael eu darparu gan hyfforddwr penodol y sefydliad. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael hyfforddiant rhagorol a'u bod

yn gallu gofyn i'r rheolwr am hyfforddiant pellach os bydd angen. Mae'r gwasanaeth yn mabwysiadu ffordd arloesol o leihau'r defnydd o weithwyr asiantaeth pan fydd prinder staff. Gwneir hynny drwy ‘ddull cartref cyfan’ lle mae staff o bob adran wedi cael hyfforddiant i weithio mewn adrannau eraill o'r gwasanaeth, gan sicrhau gofal cyson cymaint â phosibl.

Mae gan y gwasanaeth dîm o staff ymrwymedig iawn sy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Gwelsom fod y staff yn cael sesiynau goruchwylio, arfarniadau a thrafodaethau llesiant rheolaidd. Caiff cyfarfodydd tîm eu cynnal yn rheolaidd, a chaiff trafodaethau dwy ffordd eu hannog a'u hybu. Gwnaethom siarad â'r staff a ddywedodd wrthym yn gyson eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr ac yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Gwnaethant ddweud wrthym, *“I feel really supported; the manager’s door is always open”* ac *“we have a good team here; we try to help each other as much as possible”.*

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 10/12/2024

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 10/12/2024